

Adfywio

Ystod, rôl a phroffil elusennau adfywio



Y Comisiwn Elusennau yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer gweithgaredd elusennol. Mae hwn yn un o gyfres o adroddiadau sy'n cyflwyno ein profiad gwaith achosion, wedi'i ategu gan ymchwil ychwanegol. Diben yr adroddiadau yw helpu cynyddu dealltwriaeth o bwnc arbennig. Maen nhw'n rhan o'n cenhadaeth i helpu elusennau gael yr effaith fwyaf, cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, hybu arloesi a gwella effeithiolrwydd.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno casgliadau ein hymchwil i elusennau sy'n hybu adfywio ardaloedd trefol a gwledig o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd er budd cyhoeddus.

Tabl Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Crynodeb gweithredol	2
1. Graddfa	5
1.1 Nifer yr elusennau adfywio a'u hincwm	5
1.2 Ble mae elusennau adfywio yn gweithredu	6
1.3 Elusennau yn ôl ardal	6
1.4 Patrymau cofrestru	8
1.4.1 Tai ac elusennau adfywio	10
1.5 Yr hyn sy'n ysgogi cofrestru fel elusen adfywio	11
2. Meysydd gweithgaredd	12
2.1 Dadansoddiad o'r fframwaith gweithgaredd adfywio	12
2.2 Themâu o feysydd gweithgaredd	13
2.3 Grwpiau ffydd	14
2.4 Gweithgareddau elusennol ehangach	15
2.4.1 Gweithgareddau eraill	15
2.4.2 Meithrin gallu'r gymuned	18
2.4.3 Amcanion elusennol mwy cyffredinol	18
3. Proffil o elusennau adfywio	19
3.1 Mathau o ddogfennau llywodraethol	19
3.2 Rheng flaen neu gydlynwyr?	19
3.3 Proffil o ymddiriedolwyr	20
3.3.1 Nifer yr ymddiriedolwyr	20
3.3.2 Arferion recriwtio a sefydlu	21
3.3.3 Anhawster i recriwtio ymddiriedolwyr	21
3.3.4 Cynnwys defnyddwyr	21
3.3.5 Gwrthdaro buddiannau	23
3.4 Proffil o weithwyr a gwirfoddolwyr	23
3.5 Proffil o eiddo elusen	24
3.6 Ymgynghori â'r gymuned	25
3.7 Mynediad i'r we	32
4. Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg	34
4.1 Rheoleiddio	34
4.1.1 Tystiolaeth o gydymffurfiaeth reoleiddio - cyflwyno gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn	35
4.1.2 Y materion achos mwyaf cyffredin	35
4.2 Effaith, cyflawniad a nodau tymor hir	35
4.2.1 Effaith	35
4.2.2 Cyflawniadau	36
4.2.3 Nodau tymor hir	36
4.3 Risg	37
4.4 Cyllid	37
4.5 Diddymu elusennau adfywio	41
4.5.1 Elusennau sydd wedi'u dileu o'r Gofrestr	41
4.5.2 Strategaethau ar waith i elusennau presennol ar gyfer diddymu	41
Casgliad	42
Atodiad A - Amcanion enghreifftiol ar gyfer adfywio trefol a gwledig	43
Atodiad B - Technegau ymchwil a chasgliadau'r arolwg	44
Atodiad C - Rhestr termau	64
Atodiad Ch - Adnoddau	65
Diolchiadau	69

Cyflwyniad

Am y tro cyntaf erioed, mae'r Comisiwn Elusennau wedi cynnal adolygiad o elusennau adfywio yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adroddiad yn crynhoi ein casgliadau.

Fel rhan o'n gwaith parhaus i sicrhau bod y diffiniad o elusen yn cyd-fynd ag amodau modern, rydym yn adolygu'n gyson a ddylai sefydliadau sy'n cael budd o statws elusennol barhau i wneud hynny, ac a oes lle i ddatblygu ffiniau statws elusennol ymhellach. Fel enghraifft o'n gwaith yn y maes hwn, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 1999, roeddem wedi cydnabod hybu adfywio trefol a gwledig er budd cyhoeddus mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd fel diben elusennol ynddo'i hun.

Ers 1999, mae mwy na 250¹ o sefydliadau wedi mabwysiadu adfywio fel diben elusennol. Yr adroddiad yw'r cyntaf i ystyried y mathau o sefydliadau sydd wedi cofrestru fel elusennau adfywio, y gwaith a wnânt a'u trefniadau

llywodraethu. Mae hefyd yn ystyried y dulliau arloesol a ddefnyddir gan yr elusennau hyn i ymgysylltu â'r cymunedau a chynnig budd iddynt. Trwy'r adroddiad, mae'n tynnu sylw at feysydd lle mae'r elusennau hyn wedi mabwysiadu gweithdrefnau sy'n fodolau o arfer gorau, a allai gynnig budd i fathau eraill o elusennau.

Fe welwyd fod yr elusennau hyn yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod barn pob adran o'u cymuned yn cael ei chynrychioli ac weithiau byddant yn gwneud ymdrech mawr i wneud hynny ac maent bob amser yn ceisio gwella. Hefyd, gwelwyd mai'r materion allweddol i'r elusennau hyn yw cael hyd i ffynonellau cyllid parhaus a chreu adfywio cynaliadwy.

Ar adeg sy'n gweld y Llywodraeth yn adolygu rôl y trydydd sector², gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y drafodaeth honno.

¹ Fel rhan o'n hymchwil nodwyd 265 o elusennau gydag amcanion adfywio sy'n dilyn y model a sefydlwyd fel rhan o'n hadolygiad o'r Gofrestr Elusennau yng Nghymru a Lloegr yn 1999. Cyfeirir at yr elusennau hyn yn yr adroddiad fel 'elusennau adfywio'. Hefyd, cynhaliwyd arolwg ffôn o 125 o'r elusennau hyn y cyfeiriwn atynt fel 'y sampl'.

² Ym Mai 2006, lansiodd Trysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet yr Adolygiad o'r Trydydd Sector sy'n ystyried rôl y trydydd sector mewn adfywio cymdeithasol ac economaidd, *Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant: Adolygiad o rôl y Trydydd Sector mewn adfywio cymdeithasol ac economaidd yn y dyfodol - ymgynghoriad â'r Trydydd Sector* – Mehefin 2006.

Crynodeb gweithredol

Prif gasgliadau

Er mwyn sefydlu'r ystod o elusennau adfywio, edrychwyd ar y nifer sy'n cofrestru a'r ardaloedd lle y maent yn gweithredu:

- Ers 1999, mae 254 o elusennau³ wedi mabwysiadu'r amcanion adfywio newydd ac mae wyth elusen arall, a gofrestrodd cyn y dyddiad hwnnw hefyd wedi newid eu hamcanion i gynnwys adfywio. Mae'r patrymau cofrestru ers 1999 yn dangos cynnydd cyffredinol flwyddyn ar ôl blwyddyn, sydd yn ôl pob golwg yn gysylltiedig â hygyrchedd cyllid sydd ar gael yn benodol ar gyfer adfywio cymunedol.
- Cyfanswm yr incwm blyneddol ar gyfer elusennau adfywio yw £519 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli tua 1.3% o'r cyfanswm incwm ar draws y Gofrestr Elusennau. O'i gymharu â'r Gofrestr gyfan, mae elusennau adfywio yn fwy tebygol o fod yn fwy yn ôl incwm (mae gan 17% incwm o fwy na £1 miliwn o'i gymharu â 4% o elusennau ar draws y Gofrestr).
- Mae elusennau adfywio yn fwy tebygol o weithredu mewn ardaloedd trefol nag ardaloedd gwledig. Mae'r ardaloedd daearyddol lle mae'r elusennau hyn yn gweithredu yn cyfateb ag ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd uchel, gyda'r cyfrannau uchaf wedi'u lleoli yng Ngogledd Orllewin Lloegr ac yn Llundain.
- Er ei bod hi'n ofynnol i bob elusen adfywio weithredu mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, dywedodd 86% fod ysgogiad penodol wedi arwain at eu sefydlu fel elusen, boed hynny'n argaeledd rhai mathau o ffynonellau cyllid ar gyfer yr ardal neu ddigwyddiad lleol arbennig megis dirywiad y diwydiant mwyngloddio neu gyfnod o aflonyddwch sifil.

³ Mae'n cynrychioli tua 0.7% o gofrestrïadau ar gyfer yr un cyfnod.

Er mwyn sefydlu'r rôl y mae elusennau adfywio yn ei chwarae, ystyriwyd ym mha feysydd gweithgaredd y maent yn gweithredu:

- Ar gyfartaledd, mae pob elusen adfywio yn ymwneud ag wyth maes gweithgaredd. Maent yn fwy tebygol o ymgymryd â gweithgareddau yn seiliedig ar bobl yn hytrach na datblygu isadeiledd lleol. Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd yw *lleddfu caledi ariannol, cynorthwyo'r di-waith, ac addysg a hyfforddiant i bobl ddi-waith*. Mae meysydd gweithgaredd yn amrywio ychydig rhwng elusennau gwledig a threfol.
- Dim ond chwe elusen adfywio a gofrestrodd ers 1999 sy'n seiliedig yn benodol ar ffydd - mae'n bosib bod nifer mwy wedi cael eu sefydlu drwy ysgogiad gan grwpiau seiliedig ar ffydd, ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn eu hamcanion.

Er mwyn sefydlu proffil elusennau adfywio, edrychwyd ar eu trefniadau llywodraethu a sut y maent yn dangos eu hatebolrwydd i'w buddiolwyr a'u rhanddeiliaid ehangach.

- Mae 87% wedi'u sefydlu fel cwmnïau elusennol, o'i gymharu â dim ond 15% o elusennau ar draws y Gofrestr gyfan.
- Mae gan elusennau adfywio fyrddau ymddiriedolwyr sy'n fwy na'r cyffredin. Nifer yr ymddiriedolwyr ar gyfartaledd ar draws y Gofrestr gyfan i elusennau gydag incwm sy'n is na £250,000 yw pump, tra bo elusennau adfywio yn fwy tebygol o gael naw ymddiriedolwr. Y nifer cyfartalog o ymddiriedolwyr i elusennau gydag incwm o fwy na £250,000 ar draws y Gofrestr yw deg, tra bo elusennau adfywio yn fwy tebygol o gael un ar ddeg.
- Mae arferion recriwtio a sefydlu ymddiriedolwyr ymhlith elusennau adfywio o safon uchel iawn: mae 63% o elusennau adfywio yn cynnal archwiliad sgiliau cyn recriwtio ymddiriedolwyr newydd o'i gymharu â 17% o elusennau ar draws y Gofrestr gyfan⁴. Bydd 73% yn gwirio cymhwyster unigolion i fod yn ymddiriedolwyr o'i gymharu â 23% o'r holl elusennau.
- Mae gan 81% o elusennau adfywio gynrychiolwyr sy'n fuddiolwyr ar y bwrdd ymddiriedolwyr. Mae 86% o elusennau adfywio yn adolygu amrywiaeth eu bwrdd ymddiriedolwyr yn rheolaidd.

⁴ Mae canrannau cymharol wedi'u cymryd o'n hadroddiad ymchwil *Rhwydd hynt trwy ddechrau da: Recriwtio a sefydlu ymddiriedolwyr*, cyhoeddwyd Gorffennaf 2005.

- Dywedodd y mwyafrif o elusennau adfywio nad oes unrhyw strategaeth ganddynt ar gyfer tynnu'n ôl o'r ardal weithredu petaent yn cyflawni eu hamcanion neu'n cwblhau eu rhaglenni gwaith penodol.
- Mae gan 97% o elusennau adfywio un neu ragor o ddulliau i fesur effaith ac asesu effeithiolrwydd perfformiad yr elusen. Er enghraifft, bydd 78% yn defnyddio adborth gan randdeiliaid; bydd 84% yn mesur cynnyrch i ddarparwyr grantiau; bydd 61% yn defnyddio rhyw fath o reoli perfformiad a bydd 40% yn defnyddio archwiliad cymdeithasol.
- Roedd materion cyllido yn thema reolaidd i elusennau adfywio trwy ein hymchwil: dywedodd 45% bod materion cyllido wedi cael effaith andwyol ar weithgareddau eu helusennau. Un her fawr yw sicrhau cyllid cynaliadwy. Mae'n bosib bod diwedd rhaglenni grantiau sefydledig megis y Gyllideb Adfywio Sengl a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi cadarnhau i'r elusennau hyn y perygl o ddibynnu ar grantiau ac mae nifer yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i anelu at gymysgedd iach o gyllid o nifer o ffynonellau.

Roedd yn ymddangos nad oedd gan nifer o'r elusennau yn ein sampl unrhyw strategaethau ymadael, yn enwedig ar gyfer sefyllfaoedd lle yr oeddent wedi cyflawni eu hamcanion neu raglenni gweithgareddau penodol. Mae hyn yn syndod efallai, yn enwedig o ystyried natur tymor byr y cyllid ar gyfer nifer o'r elusennau hyn.

Casgliad

Mae dadansoddiad o'r grŵp unigryw hwn o elusennau adfywio, sydd wedi cofrestru'n weddol ddiweddar, wedi dangos bod rhai nodweddion gwahanol amlwg o'u cymharu ag elusennau ar draws y Gofrestr gyfan. Yn arbennig, mae gwersi i elusennau eraill o ran llywodraethu da a mesur effaith y gwaith a wnânt. Mae'r ffordd y mae'r elusennau hyn yn ymgysylltu'n effeithiol â buddiolwyr ac yn cyrraedd buddiolwyr yn arbennig o berthnasol.

1. Graddfa

1.1 Nifer yr elusennau adfywio a'u hincwm

Mae ystod eang o elusennau ar draws Cymru a Lloegr yn cyfrannu tuag at adfywio'r cymunedau lle maent yn gweithio. Fodd bynnag, roedd ein hymchwil wedi neilltuo'r elusennau hynny ar y Gofrestr gydag amcanion a oedd yn cynnwys adfywio yn dilyn ein hadolygiad o'r maes hwn yn 1999. Roedd 265 o elusennau yn bodloni'r maen prawf hwn.

Cyfanswm incwm yr elusennau adfywio hyn oedd £519 miliwn yn y flwyddyn ariannol 2005/2006. O'r cyfanswm hwn, mae tua £302 miliwn yn cael ei ddal gan elusennau lle mae'r prif ffocws ar dai, ond mae'r elusennau hyn hefyd yn gallu adfywio. Gan fod

cyfanswm yr incwm ar draws y Gofrestr yn £39.7 biliwn, mae elusennau adfywio yn cyfrif am tua 1.3% o'r cyfanswm hwnnw.

Roedd gan gyfran sylweddol o elusennau adfywio (42%) incwm blynyddol rhwng £10,001 a £250,000. Roedd y gweddill wedi'i ddsbarthu'n wastad ar draws yr ystodau band incwm.

O'i gymharu â'r Gofrestr gyfan, mae elusennau adfywio yn fwy tebygol o gael eu cynnwys yn y bandiau incwm uwch, gan adlewyrchu o bosib yr ystod o weithgareddau a'r raddfa y maent yn eu cynnal.

Elusennau adfywio wedi'u rhannu yn ôl ystodau incwm o'i gymharu â'r Gofrestr gyfan

Ystodau incwm	Canran (a nifer) yr elusennau adfywio	% yr elusennau ar y Gofrestr
£10,000 a llai	17% (44)	52%
£10,001 - £249,999	42% (110)	35%
£250,001 - £1 miliwn	19% (51)	5%
£1 miliwn +	17% (46)	3%
Incwm ddim yn hysbys eto ⁵	5% (14)	5%
Cyfanswm	100% (265)	100%

Er bod elusennau adfywio gydag incwm blynyddol o lai na £1 miliwn yn cyfrif am 78% o'r 265 a astudiwyd, mewn gwirionedd roeddent yn dal tua 7% yn unig o gyfanswm incwm yr holl elusennau adfywio. Mae 17% o elusennau gydag incwm hysbys

o fwy na £1 miliwn yn cyfrif am tua 93% o'r incwm ar gyfer y rhan hon o'r sector. Mewn cymhariaeth, ar draws y Gofrestr gyfan, mae elusennau gydag incwm o fwy na £1 miliwn yn dal tua 81% o'r cyfanswm incwm.

⁵ Nid yw'n ofynnol i elusennau sydd newydd gofrestru gyflwyno cyfrifon blynyddol tan ddiwedd eu blwyddyn ariannol lawn gyntaf; felly nid ydym wedi derbyn ffigurau incwm blynyddol ar gyfer y rhain eto.

% incwm elusennau adfywio o'i gymharu â % incwm y Gofrestr gyfan

Band Incwm	% incwm elusennau adfywio	% incwm y Gofrestr
£10,000 a llai	0.03%	0.7%
£10,001 - £249,999	2.07%	8.4%
£250,001 - £1 miliwn	5.1%	10.3%
£1 miliwn +	92.8%	80.6%
Cyfanswm	100%	100%

1.2 Ble mae elusennau adfywio yn gweithredu

Gwelwyd bod y mwyafrif o elusennau adfywio (69%) wedi'u sefydlu i ymgymryd ag adfywio mewn ardaloedd trefol a gwledig. Er gwaethaf hyn, mae'r

rhan fwyaf o'r elusennau hyn yn gweithredu mewn ardaloedd trefol yn bennaf.

Ble mae elusennau adfywio yn gweithredu

Ardal	%
Trefol	24%
Gwledig	7%
Trefol a Gwledig	69%
Cyfanswm	100%

1.3 Elusennau yn ôl ardal

Sefydlwyd 83% o elusennau adfywio ar y Gofrestr i weithredu ar lefel leol o fewn ardaloedd yng Nghymru a Lloegr. Dywedodd 31 elusen eu bod yn gweithredu'n genedlaethol trwy Gymru a Lloegr. Roedd 20 arall yn ymgymryd â gwaith adfywio trefol

neu wledig dramor mewn un neu fwy o wledydd, ac mae gan 8 gylch gorchwyl i weithredu'n fyd-eang (er, mewn gwirionedd, byddant yn gweithredu mewn ardal lai).

Elusennau adfywio yn ôl ardal⁶

Ardal	Nifer
Rhanbarthol	283
Cenedlaethol	31
Tramor	20
Byd-eang	8
Cyfanswm	342

⁶ Bydd rhai elusennau'n gweithredu mewn cyfuniad o ardaloedd; felly mae'r cyfanswm yn fwy na'r union nifer o elusennau.


O'r elusennau sy'n gweithredu o fewn ardaloedd mewn rhanbarthau ar draws Cymru a Lloegr (yn hytrach nag yn genedlaethol neu'n fyd-eang), mae'r mwyafrif yn gweithio mewn ardaloedd yng Ngogledd

Orllewin Lloegr (21%), ac yna Llundain Fwyaf (20%). Mae'r gyfran isaf o elusennau adfywio yn gweithredu mewn ardaloedd yng Nghymru (3%), ac wedyn Dwyrain Lloegr a De Orllewin Lloegr (6% yr un).

Elusennau adfywio yn ôl rhanbarth

Rhanbarth	Nifer yr elusennau	% yr elusennau adfywio
Gogledd Orllewin	56	21%
Llundain Fwyaf	52	20%
Swydd Gaerefrog a'r Humber	48	18%
Gogledd Ddwyrain	35	13%
Gorllewin Canolbarth Lloegr	26	10%
De Orllewin	18	7%
Dwyrain Canolbarth Lloegr	16	6%
Dwyrain	14	5%
Cymru	9	3%
De Ddwyrain	9	3%
Cyfanswm	283	-

Elusennau adfywio sy'n gweithredu'n rhanbarthol



Er mwyn bod yn elusennol, mae angen i'r adfywio ddigwydd mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Nid yw'n syndod, felly, bod ein hymchwil wedi canfod cydberthyniad rhwng

dwysedd yr elusennau sy'n gweithredu mewn rhanbarthau ledled Cymru a Lloegr ac ardaloedd o amddifadedd uchel⁷.

⁷ Gweler Mynegeion amddifadedd 2004 (diwygiedig) ar gael ar wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol www.communities.gov.uk

1.4 Patrymau cofrestru

Gwelwyd nad oedd pob elusen gydag amcanion adfywio wedi dechrau felly. Roedd wyth elusen a gafodd eu cofrestru cyn 1999 (pan oedd adfywio yn cael ei gydnabod fel diben elusennol) wedi ystyried

wedi hynny bod eu gweithgareddau yn cyfateb â'r diben hwn ac felly roeddent wedi diwygio neu newid eu hamcanion presennol gyda'r dibenion elusennol adfywio newydd eu cydnabod.

Astudiaeth achos

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol SMART yn elusen fawr⁸, sy'n gweithio yn Ne Lerpwl ar Lannau Mersi.

Sefydlwyd yr elusen yn wreiddiol yn 1993 i gynnal ystod eang o weithgareddau gan gynnwys darparu cyfleusterau iechyd y cyhoedd a gofal plant, er budd cyffredinol trigolion yr ardal leol. Roedd rhai ohonynt yn gymdogaethau a ddynodwyd fel ardaloedd o amddifadedd dwys.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweinyddu nifer o brosiectau gan gynnwys:

Clybiau plant
Meithrinfa ddydd
Siop dan yr unto - ar gyfer nifer o wasanaethau yn y gymuned
Cyn ysgol

Er na sefydlwyd yr elusen yn wreiddiol ar gyfer adfywio, roedd ei gweithgareddau'n dilyn yn agos y dibenion a gafodd eu cydnabod yn elusennol yn 1999 ac felly fe fabwysiadodd yr elusen amcanion adfywio yn ffurfiol rywbryd ar ôl iddi gael ei sefydlu. Gwnaeth hyn er mwyn adlewyrchu yn fwy manwl gywir y gwaith yr oedd yn ei wneud o fewn ei chymuned leol.

Rhan o'r gwaith hwn oedd creu mentrau cymdeithasol cynaliadwy, yn enwedig ym maes darpariaeth gofal plant. Mae'n cyflawni hyn trwy weithio gyda phartneriaethau lleol, sectorau cyhoeddus a phreifat a thrwy gydweithio â grwpiau cymunedol eraill yn yr ardal. Mae hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad ar nifer o bynciau gan ganolbwyntio'n bennaf ar ofal plant, rhoi cyngor i fusnesau bach a chymorth i bobl ag anableddau.

Roedd newid amcanion yr elusen er mwyn adlewyrchu ei gweithgareddau yn well yn golygu ei bod yn gallu gwneud cais am ffynonellau eraill o gyllid nad oedd ar gael i'r elusen cyn hynny. Mae'n bosib na allai gynnig yr ystod eang o weithgareddau a restrir uchod pe na fyddai wedi gwneud hyn.



⁸ Rydym wedi disgrifio elusennau fel elusennau 'bach' neu 'fawr' yn ôl eu band incwm (gweler y tabl yn *Atodiad B* am fwy o wybodaeth). Mae hyn at ddibenion ein gwaith ymchwil yn unig ac nid yw'n adlewyrchu sefyllfa'r elusen dan sylw neu'n llunio barn am ei heffaith yn ei chymuned ei hun.


Mae dadansoddiad o'r elusennau adfywio sy'n cofrestru flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 1999 yn dangos bod y niferoedd yn codi'n gyflym, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2004. Mae peth dystiolaeth fod yr uchafbwynt yn 2004 yn gysylltiedig â'r bwriad

arfaethedig i dynnu'n ôl ffynonellau cyllid allweddol ar gyfer y maes gweithgaredd hwn rhwng 2004 a 2006⁹, a allai fod wedi achosi creu'r nifer uwch o sefydliadau newydd o ganlyniad i grantiau terfynol.

Elusennau adfywio yn ôl blwyddyn cofrestru

Blwyddyn cofrestru	Nifer yr elusennau
<1999	8
1999	11
2000	20
2001	24
2002	38
2003	40
2004	54
2005	43
2006	48 ¹⁰

Graff sy'n dangos patrymau cofrestru flwyddyn ar ôl blwyddyn



⁹ Er enghraifft y Gyllideb Adfywio Sengl (CAS) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.


¹⁰ Ffigur amcan yn seiliedig ar gyfartaledd o 4 cofrestriad y mis, rhwng Ionawr a Gorffennaf 2006.

1.4.1 Tai ac elusennau adfywio

Mae nifer o elusennau adfywio (29) yn canolbwyntio'n arbennig ar y ddarpariaeth o dai yn yr ardal lle maent yn gweithredu, ond yng nghydestun ehangach adfywio. Darganfu ein hymchwil

fod cyfran sylweddol o'r elusennau hyn wedi cofrestru yn 2004 (48%), a all fod yn gysylltiedig hefyd â'r materion cyllido y soniwyd amdanynt yn gynharach.

Dyddiadau cofrestru elusennau tai



1.5 Yr hyn sy'n ysgogi cofrestru fel elusen adfywio

Fel y nodwyd uchod, i gofrestru fel elusen adfywio, mae gofyniad bod rhaid i'r ardal o fudd fod yn un o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Ond yn aml, mae ysgogiad arbennig i bobl ddod at ei gilydd er mwyn mynd i'r afael â phroblem hir-sefydlog. Gofynnwyd i sampl o 125 o elusennau adfywio a oedd digwyddiad neu achos arbennig wedi arwain at sefydlu'r elusen.

Dywedodd 86% o'r sampl (107 o elusennau) fod rheswm neu resymau penodol wedi eu harwain at benderfynu gwneud cais i gofrestru fel elusen.

O'r rhain, dywedodd 39 elusen mai argaeledd cyllid oedd y prif gymhelliad. Roedd 32 o'r rhain yn ymwybodol bod ffynonellau cyllid penodol ar gael i

wella eu hardal (er enghraifft, CAS neu gyllid y llywodraeth); tra bo 7 wedi cofrestru'n bennaf i fod yn gymwys i gael manteision treth neu statws elusen gofrestredig.

Roedd 27 elusen wedi cael eu sefydlu mewn ymateb i ddigwyddiad neu sefyllfa benodol yn eu cymuned. O'r rhain, sefydlwyd 6 ar ôl digwyddiad unigryw (er enghraifft, llofrudd putain, neu aflonyddwch sifil); tra yr oedd y 21 a oedd yn weddill yn ganlyniad i newid tymor hir yn hinsawdd economaidd yr ardal (er enghraifft, cyflogwr pwysig yn yr ardal yn cau e.e. pwll glo neu ysbyty).

“Roedd hon yn ardal pwll glo, a phan gaeodd y pwll, caeodd y siopau hefyd ac aeth yr ardal â'i phen iddi. Cynhaliodd partneriaeth busnes gyfarfod a phenderfynu gwneud rhywbeth ar ffurf fforwm cymunedol.”

- atebwr i'n harolwg

Sefydlwyd 18 elusen ar anogaeth naill ai unigolyn neu grŵp o unigolion a oedd eisoes yn weithredol yn

y gymuned (e.e. grŵp eglwysig neu arweinwyr busnes).

“...cyfarfod o bobl o'r un feddwl a dyfodd yn organig...”

- atebwr i'n harolwg

Crëwyd 10 elusen i fod yn ganolbwynt er mwyn annog y gymuned i gymryd rhan a chynorthwyo i

adfywio ardal.

2. Meysydd gweithgaredd

Er mwyn bod yn effeithiol, mae cydnabyddiaeth eang y dylai adfywio fod yn gyfannol a gallu ymdrin ag ystod o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Felly er mwyn bod yn gymwys i gael statws elusennol, dylai elusennau sy'n cofrestru dan y diben elusennol adfywio gwmpasu amrywiaeth eang o weithgaredd. Disgwylw'n i sefydliadu sy'n mabwysiadu dibenion adfywio ymgymryd â thri

maes gweithgaredd neu ragor sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith a sefydlwyd yn 1999¹¹. Yn ymarferol, bydd elusennau'n cyflawni'r meysydd gweithgaredd hyn mewn ystod eang o ffyrdd.

Roedd ein hymchwil yn cynnwys dadansoddiad o'r meysydd gweithgaredd a ddatganwyd gan elusennau adfywio.

2.1 Dadansoddiad o'r fframwaith gweithgaredd adfywio

Mae'r diben adfywio cydnabyddedig yn rhestru 12 maes gweithgaredd¹² a nodwyd fel ffyrdd o ymgymryd ag adfywio er mwyn bodloni gofynion statws elusennol. O'r rhestr hon, rhaid i elusennau fabwysiadu o leiaf tri maes gweithgaredd.

Darganfu ein hymchwil mai'r meysydd gweithgaredd mwyaf cyffredin ar gyfer elusennau adfywio yn gyffredinol yw *darparu addysg a hyfforddiant i bobl*

ddi-waith (81%) ac *yna lleddfu caledi ariannol* (72%) a *darparu gweithgareddau adloniadol* (71%). Y gweithgareddau lleiaf cyffredin yw *darparu tai* (28%) a *chadwraeth adeiladau* (28%). Mae'r canrannau a ddangosir yn awgrymu'r canrannau o elusennau adfywio sy'n ymgymryd â phob gweithgaredd.


Elusennau adfywio - meysydd gweithgaredd

Gweithgaredd yr elusen	% y gweithgaredd ar draws elusennau adfywio
a Lleddfu caledi ariannol	72%
b Cynorthwyo'r di-waith	69%
c Addysg a hyfforddiant i bobl ddi-waith	81%
ch Cymorth ariannol neu dechnegol i bobl ddi-waith	52%
d Darparu lle gwaith, adeiladau neu dir ar delerau ffafriol	50%
dd Darparu tai	28%
e Darparu, cynnal a chadw neu wella amwynderau cyhoeddus	57%
f Cadwraeth adeiladau	28%
ff Darparu gweithgareddau adloniadol	71%
g Gwarchod/cadwraeth yr amgylchedd	48%
ng Darparu cyfleusterau iechyd y cyhoedd/gofal plant	48%
h Hybu diogelwch y cyhoedd ac atal troseddau	49%
i Dibenion adfywio eraill yn amodol ar gydsyniad y Comisiwn Elusennau	62%

¹¹ Wedi'u rhestru yn *Atodiad A*.

¹² Cydnabuom nad oedd y rhestr hon yn rhestr derfynol, felly roeddem hefyd wedi cynnwys opsiwn olaf i elusennau ymgymryd â gweithgareddau eraill i adfywio gyda'n caniatâd ysgrifenedig.

Gweithgareddau adfywio



2.2 Themâu o feysydd gweithgaredd

Ar gyfartaledd, mae pob elusen adfywio yn ymgymryd â gweithgareddau mewn wyth o'r meysydd uchod.

Mae'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd yn seiliedig ar bobl, er enghraifft darparu *hyfforddiant i bobl ddi-waith* neu *lleddfu caledi ariannol*.

Ar gyfer elusennau adfywio sy'n gweithredu mewn ardaloedd **trefol**, y gweithgareddau mwyaf cyffredin oedd *lleddfu caledi ariannol*, *addysg a hyfforddiant i bobl ddi-waith* a *darparu gweithgareddau adloniadol*. Maent yn lleiaf tebygol o ymwneud â *chadwraeth adeiladau*.

Mae elusennau **gwledig** yn fwy tebygol o gael eu sefydlu i ganolbwyntio ar *gynorthwyo'r di-waith*, *darparu, cynnal neu wella amwynderau cyhoeddus* ac *addysg a hyfforddiant i bobl ddi-waith*. Maent yn lleiaf tebygol o ymwneud ag *atal troseddau*.

Yn fwyaf aml bydd elusennau sy'n gweithredu mewn **ardaloedd trefol a gwledig** yn dewis *cynorthwyo'r di-waith*, *lleddfu caledi ariannol* a *darparu addysg a hyfforddiant i bobl ddi-waith* fel eu blaenoriaethau. Maent yn lleiaf tebygol o ymwneud â *chadwraeth adeiladau*.

2.3 Grwpiau ffydd

Mae chwe elusen adfywio yn grwpiau penodol seiliedig ar ffydd (4 Cristnogol, 1 Islamaidd ac 1 sy'n rhwydwaith aml-ffydd).

Astudiaeth achos

Cofrestrodd The Faith Based Regeneration Network fel elusen ar ddiwedd 2004 ac mae'n ceisio dwyn ynghyd pobl sy'n uniaethu â thraddodiadau ffydd ac sy'n ymwneud ag adfywio neu sy'n gweithio i ddatblygu sefydliadau cymunedol seiliedig ar ffydd mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd.



Mae amcanion yr elusen yn cynnwys:

- annog grwpiau ffydd i gymryd rhan weithredol mewn mentrau a phartneriaethau adfywio lleol;
- meithrin gallu grwpiau ffydd trwy adnabod, dangos a hybu arferion da;
- adnabod anghenion hyfforddi a datblygu sgiliau ymarferyddion adfywio'n seiliedig ar ffydd;
- dangos manteision cydweithredu a chydweithio ar draws crefyddau; a
- darparu rhyngwyneb rhwng lefelau amrywiol o wneud penderfyniadau a llunio polisiau, o bolisi strategol cenedlaethol i weithredu ar lefel llawr gwlad.

Mae naw ymddiriedolwr gan yr elusen sydd i gyd yn aelodau o wahanol feysydd o waith adfywio a chymunedau ffydd, gan gynnwys y ffydd Baha'i, Bwdhaidd, Cristnogol, Hindwaidd, Jainaid, Iweddig, Mwslimaidd a Zoroastriaidd.

Cafodd amrywiaeth y bwrdd ymddiriedolwyr effaith gadarnhaol pan gyfrannodd yr elusen at sefydlu rhaglen meithrin gallu cymunedol i gymuned Jainaid fach yn Llundain. Cafodd y grŵp yma anhawster i gael adnoddau a fyddai'n ei alluogi i ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Roedd un o'r ymddiriedolwyr yn aelodau o gymuned Jainaid ac yn gallu deall yr anawsterau a'r materion a oedd yn berthnasol i'r ardal hon o'r gymdeithas. Felly roedden nhw'n gallu cydweithio i gynllunio a gweithredu rhaglen a oedd mor effeithiol â phosib.

Yna aeth y gymuned Jainaid ymlaen i gyflwyno cais llwyddiannus i Gronfa Meithrin Gallu Cymunedau Ffydd am waith adfywio pellach yn yr ardal leol.

Mae sefydlu bwrdd ymddiriedolwyr amrywiol yn sicrhau bod y sefydliad yn cael ei lywodraethu gan bobl sydd mewn sefyllfa well i wasanaethu'r gymuned a gynrychiolant, gan gynnig modd i'r elusen gynllunio a gweithredu ei rhaglenni mewn ffordd sy'n sensitif i anghenion pobl sy'n cael budd o'r elusen ac sy'n cyd-fynd â'i gwerthoedd â'i dyheadau.

2.4 Gweithgareddau elusennol ehangach

2.4.1 Gweithgareddau eraill

Mae nifer o elusennau adfywio naill ai wedi addasu'r amcanion adfywio safonol neu gynnwys amcanion elusennol eraill i gyfateb ag amgylchiadau unigryw

eu hardal eu hunain ac amcanion tymor hir yr elusen. Mae rhai enghreifftiau isod:

Elusennau sy'n gweithredu dramor

*"Darparu, cynnal neu wella amwynderau sylfaenol fel pŵer, dŵr diogel ac iechydaeth"*¹³ – o fewn amcanion adfywio

*"Darparu cymorth ariannol a chymorth arall er mwyn cadw adeiladau neu safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol, archeolegol neu bensaernïol"*¹⁴ – o fewn amcanion adfywio

*"Cynnal, gwella neu ddarparu amwynderau cyhoeddus yn arbennig trwy ddarparu offer ar gyfer iechydaeth well, dŵr glân, cysgod, golau ac adeiladu a chynnal mynediad i feysydd amrywiol o'r prosiect ac o fewn cymunedau"*¹⁵ – o fewn amcanion adfywio

*"Darparu cyfleusterau sylfaenol ac offer ar gyfer pysgota (gan gynnwys cychod a rhwydi), sy'n ffynhonnell allweddol o gyflogaeth ar hyd y rhanbarthau arfordirol a effeithir fwyaf gan drychineb y tswnami"*¹⁶ – o fewn amcanion adfywio

*"Hybu cytgorod crefyddol a hiliol er budd cyhoeddus rhwng Mwslimiaid a'r rhai nad ydynt yn Fwslimiaid ledled y byd"*¹⁷ – ochr yn ochr ag amcanion adfywio

¹³ 3rd Eye Trust Limited, 1111231.

¹⁴ Balkans Peace Park Project, 1105447.

¹⁵ Eco-Paradise Trust, 1115073.

¹⁶ Tsunami Regeneration and Housing Trust (UK), 1107822.

¹⁷ El-Hassan Trust, 1096004.

Elusennau yn adeiladu cymunedau ac yn cysylltu pobl

"Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth er budd y cyhoedd trwy hybu dileu gwahaniaethu ar sail hil, crefydd, anabledd neu darddiad ethnig trwy gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gefndir, priodweddau ac anghenion unigolion sy'n byw yn yr ardal o fudd a sefydliadau a grwpiau sy'n gweithredu yn yr ardal o fudd a thrwy hybu agweddau, defodau ac arferion sy'n ffafrio cydraddoldeb..."¹⁸ – o fewn amcanion adfywio

"...hybu diogelwch y cyhoedd ac atal troseddau gan gynnwys yn arbennig meithrin mesurau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw trefn gyhoeddus trwy ddarparu gwasanaethau wedi'u cyfeirio at gyflafareddu a chymodi rhwng pobl, sefydliadau a grwpiau sy'n ymwneud ag anghydfodau neu wrthdaro rhyngpersonol lle mae'r anghydfod neu'r gwrthdaro yn deillio o neu'n gallu arwain at weithredoedd o niwsans, fandaliaeth, cam-drin hiliol neu dor-heddwch..."¹⁹ – o fewn amcanion adfywio

"Hybu cydlynid cymdeithasol rhwng cymunedau aml-ethnig, diwylliannol a ffydd"²⁰ – o fewn amcanion adfywio

"Darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth mewn perthynas â dinasyddiaeth, er mwyn meithrin gallu a photensial unigolion fel aelodau cymdeithas a bod modd gwella eu hamodau bywyd..."²¹ – o fewn amcanion adfywio

"...Parchu a chynnal hawliau dynol yn unol â rheolaeth cyfraith....atal troseddau gan gynnwys unrhyw fath o derfysgaeth"²² – ochr yn ochr ag amcanion adfywio

"Hybu dinasyddiaeth dda a chytgord o fewn y gymuned rhwng personau o wahanol gefndiroedd ethnig, diwylliannol neu oedran a rhwng pobl sydd ag anabledd a phersonau eraill"²³ – ochr yn ochr ag amcanion adfywio

"Gweithredu fel ffocws o farn gymunedol o fewn yr ardal o fudd er mwyn sicrhau bod datblygiad economaidd ac adfywiad yr ardal honno wedi'i gydbwyso'n effeithiol i ofynion arbennig y gymuned o'i gymharu â thwf economaidd tymor hir, cynnydd mewn lefelau cyflogaeth, yr amgylchedd, tai a darparu amwynderau..."²⁴ – ochr yn ochr ag amcanion adfywio

¹⁸ Brierfield Action in the Community, 1112377.

¹⁹ Genesis Community Foundation Limited, 1109918.

²⁰ Otley Road and Undercliffe Community Works, 1109010.

²¹ St Mark's Community and Enterprise Centre, 1097188.

²² Muslim Women Society for the Future, 1108900.

²³ East Foundation Limited, 1112995.

²⁴ The Moss Side and Hulme Community Development Trust, 1093592.

Elusennau sy'n gweithredu gyda dibenion amgylcheddol

"Darparu mesurau cludiant cynaliadwy er budd cyhoeddus..."²⁵ – o fewn amcanion adfywio

"Diogelu neu warchod yr amgylchedd ac yn arbennig hybu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni..."²⁶ – o fewn amcanion adfywio

"Diogelu neu warchod yr amgylchedd, yn arbennig ond nid yn unig trwy hybu datblygiad ac estyn arferion rheoli gwastraff cynaliadwy ymysg busnesau a sefydliadau eraill yn y gymuned..."²⁷ – o fewn amcanion adfywio

"....amcanion cymeradwy (fel y'u diffinnir gan Reoliad 33 Rheoliadau Treth Tirlenwi 1996 neu unrhyw ddiwygiad ohono) sydd yn elusennol yn unig ac yn hybu unrhyw un o'r amcanion blaenorol..."²⁸ – o fewn amcanion adfywio

"Cadwraeth a gofalu am adeiladau neu safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol gan gynnwys defnydd addas a mynediad cyhoeddus i asedau treftadaeth..."²⁹ – o fewn amcanion adfywio

"Hyrwyddo addysg y cyhoedd yn enwedig ym maes bywyd gwyllt, hanes, archeoleg, celf a phensaernïaeth yr ardal o fudd....cadwraeth rhywogaethau mewn perygl a chadwraeth safleoedd neu adeiladau o bwysigrwydd hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol er budd y cyhoedd..."³⁰ – ochr yn ochr ag amcanion adfywio

"Hyrwyddo addysg mewn egwyddorion datblygiad cynaliadwy mewn defnyddio a rheoli tir ac ystadau, dulliau cynaliadwy o amaethyddiaeth, garddwriaeth, tyfu coed a ffermio organig..."³¹ – ochr yn ochr ag amcanion adfywio

Mae dibenion eraill y sefydlwyd elusennau i'w cyflawni ochr yn ochr â gweithgareddau adfywio yn cynnwys, er enghraifft, hybu chwaraeon, diogelu a

gwarchod iechyd da, hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sefydliadau'r sector gwirfoddol a hyd yn oed lles anifeiliaid.

²⁵ Allerton Bywater Community Partnership, 1107132.

²⁶ Awel Aman Tawe Cyf, 1114492.

²⁷ Elephant Jobs Limited, 1112662.

²⁸ North Doncaster Development Trust, 1099954.

²⁹ Norwich Heritage Economic and Regeneration Trust, 1109662.

³⁰ Tale Valley Trust, 1079582.

³¹ The Bulmer Foundation, 1093558.

2.4.2 Meithrin gallu'r gymuned

Mae 37 o elusennau (14%) yn ymwneud â meithrin gallu'r gymuned³² ochr yn ochr ag adfywio. Mae'r math hwn o elusen yn:

- darparu cyfleoedd i bobl ddysgu trwy brofiad - cyfleoedd na fyddent ar gael iddynt fel arall; ac yn
- cynnwys pobl mewn cydymdrech er mwyn iddynt fagu hyder yn eu galluoedd eu hunain a'u gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae mwy na hanner yr elusennau³³ sy'n ymwneud â meithrin gallu'r gymuned yn gweithredu mewn ardaloedd trefol yn unig ac yn darparu addysg a hyfforddiant yn bennaf i bobl ddi-waith a gweithgareddau adloniadol dan y diben adfywio.

2.4.3 Amcanion elusennol mwy cyffredinol

Mae 32 o elusennau adfywio (12%) yn cynnwys 'dibenion elusennol cyffredinol' yn eu hamcanion yn ogystal â gallu cyflawni gweithgareddau adfywio. Mae elusennau sy'n cynnwys hyn yn gallu ymgymryd ag unrhyw weithgaredd sy'n elusennol yn ôl y gyfraith.

Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd yr oedd elusennau gyda dibenion elusennol cyffredinol yn ymgymryd ag ef oedd darparu addysg a hyfforddiant i bobl ddi-waith.

³² Fel rhan o'n hadolygiad o'r Gofrestr, roeddem hefyd wedi cydnabod meithrin gallu'r gymuned fel diben elusennol ynddo'i hun yn 2000. Yr amcanion enghreifftiol ar gyfer hyn yw: "datblygu gallu a sgiliau aelodau'r gymuned sydd dan anfantais gymdeithasol ac economaidd [cymdeithasol] sef x mewn ffordd sy'n eu galluogi i adnabod, a helpu ateb eu hanghenion yn well a chyfranogi'n llawnach mewn cymdeithas".

³³ O'r 37 sy'n ymwneud â meithrin gallu'r gymuned, mae 20 yn gweithredu mewn ardaloedd trefol.

3. Proffil o elusennau adfywio

3.1 Mathau o ddogfennau llywodraethol

Mae'r mwyafrif helaeth o elusennau adfywio (87%) yn gwmnïau elusennol cyfyngedig drwy warant, a lywodraethir gan Femoranda ac Erthyglau Cymdeithasu. Mae hyn yn adlewyrchu maint a chymhlethdod y mwyafrif o'r elusennau hyn. Ar

draws y Gofrestr gyfan, dim ond 15% o elusennau sy'n gwmnïau.

Roedd y gweddill (13%) yn elusennau anghorfforedig³⁴.

Elusennau adfywio - mathau o ddogfennau llywodraethol

Math o ddogfen lywodraethol	Nifer	% yr elusennau adfywio
Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu	230	86.8%
Cynllun	1	0.4%
Gweithred Ymddiriedolaeth	4	1.5%
Cyfansoddiad	20	7.5%
Datganiad Ymddiriedolaeth	10	3.8%
Cyfanswm	265	100%

3.2 Rheng flaen neu gydlynwyr?

Gall elusen adfywio:

- ymgymryd â gweithgareddau rheng flaen, gan ymwneud yn uniongyrchol ag agweddau gwahanol ar y prosiect adfywio ei hun;
- gweithredu fel cydlynnydd, ymgysylltu ag asiantaethau eraill i ddarparu'r prosiect adfywio; neu

- wneud cyfuniad o waith rheng flaen a chydlynu.

Dangosodd ein hymchwil fod y mwyafrif o elusennau yn ein sampl (62%) yn gwneud y ddau. Mae'r gweddill wedi'u rhannu'n gyfartal bron rhwng darparu gweithgareddau rheng flaen (18%) a chydlynu gweithgareddau eraill (17%).

“Mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae STEP yn ceisio sicrhau adfywiad cymdeithasol ac economaidd yn yr ardal trwy ddarparu cyfle cyfartal mewn cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a menter i bobl leol, gan felly cynorthwyo i ddatblygu economi leol ddichonadwy a chynaliadwy”

- Partneriaeth Hyfforddiant a Menter Stocksbridge, disgrifiad o amcanion yr elusen ar y Ffurflen Gwybodaeth Safonol

³⁴ Gall elusennau ddewis o nifer o ffurfiau cyfreithiol gwahanol. Am esboniad o'r mathau amrywiol o ddogfennau llywodraethol, a'r mathau o sefydliadau y maent yn briodol ar eu cyfer, gweler ein cyhoeddiad *Cofrestru fel Elusen* (CC21).

Disgrifiodd pedair elusen eu hunain fel sefydliadau heb fod yn rhai rheng flaen neu gydlynw. Roedd enghreifftiau o'u gweithgareddau yn cynnwys

darparu cyllid dramor i alluogi adfywio neu gynnig gwasanaethau rhwydwaith, cysylltu pobl â'i gilydd i rannu arferion da.

3.3 Proffil o ymddiriedolwyr

3.3.1 Nifer yr ymddiriedolwyr

Yn ymarferol, bydd nifer yr ymddiriedolwyr yn amrywio o elusen i elusen a bydd yn dibynnu ar y gofynion a bennir yn y ddogfen lywodraethol a maint a chymhlethdod materion yr elusen.

Roedd 247 o elusennau adfywio wedi darparu manylion am eu hymddiriedolwyr³⁵. Nid yw'n syndod, efallai, bod elusennau adfywio yn tueddu i gael mwy o ymddiriedolwyr o'u cymharu â'r ffigurau cyfartalog ar draws y Gofrestr - gan adlewyrchu eu

maint a'r angen i'r corff ymddiriedolwyr gynrychioli mor llawn â phosib y gymuned a wasanaethant. Nifer yr ymddiriedolwyr ar gyfartaledd ar draws y Gofrestr gyfan i elusennau gydag incwm yn is na £250,000 yw pump, tra bo elusennau adfywio yn fwy tebygol o gael naw ymddiriedolwr. Y nifer cyfartalog o ymddiriedolwyr i elusennau gydag incwm o fwy na £250,000 ar draws y Gofrestr yw deg, tra bo elusennau adfywio yn fwy tebygol o gael 11.

Nifer yr ymddiriedolwyr mewn elusennau adfywio

Nifer yr ymddiriedolwyr	Nifer yr elusennau
1 i 5	80
6 i 10	97
11 i 15	58
16 i 20	10
21 i 25	1
26 i 30	0
31 i 35	1
Manylion heb eu darparu eto	18
Cyfanswm	265

³⁵ Roedd 18 elusen yn y sampl naill ai yn elusennau nad oedd disgwyl iddynt gyflwyno'r manylion neu oedd heb ddarparu'r manylion hyn.

3.3.2 Arferion recriwtio a sefydlu

Bydd angen i'r rhan fwyaf o elusennau recriwtio ymddiriedolwyr newydd dan delerau'r ddogfen lywodraethol. Mae penodi ymddiriedolwyr newydd i fwrdd sefydledig yn gyfle gwych i werthuso a gwella effeithiolrwydd elusen.

Yn ein hymchwil cynharach, wedi'i gyhoeddi yn *Rhwydd hynt trwy ddechrau da*³⁶, ystyriwyd yn fanwl yr arferion recriwtio a'r offer a ddefnyddir i gynorthwyo ymddiriedolwyr newydd eu recriwtio mewn elusennau.

Y pryd hynny, gwelwyd bod bwrdd effeithiol yn fwy tebygol o gynnwys pobl gyda chymysgedd amrywiol o sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau. Wrth ystyried elusennau ar draws y Gofrestr, gwelwyd bod 17% o elusennau yn cynnal archwiliad sgiliau o ymddiriedolwyr cyn recriwtio. Fodd bynnag, dangosodd ein hymchwil diweddaraf fod 63% o elusennau adfywio yn cynnal archwiliad sgiliau o ymddiriedolwyr sy'n bod cyn recriwtio, er mwyn creu byrddau sy'n cynnwys pobl gyda'r sgiliau allweddol y mae eu hangen arnynt i sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol.

3.3.3 Anhawster i recriwtio ymddiriedolwyr

Yn ein hymchwil cynharach ar recriwtio ymddiriedolwyr³⁸, gwelwyd bod 39% o elusennau'n cael anhawster weithiau i recriwtio ymddiriedolwyr a bod 11% bob amser yn cael anhawster. Roedd hyn yn golygu bod hanner yr holl elusennau yn cael anawsterau i lenwi swyddi gwag, gan nodi prinder ymgeiswyr ac anawsterau i gael hyd i bobl sy'n barod i wneud yr ymrwymiad amser fel rhai o'r materion sy'n atal pobl rhag gwneud cais i fod yn

Adolygu amrywiaeth y bwrdd ymddiriedolwyr oedd yr arfer recriwtio mwyaf poblogaidd ymysg elusennau adfywio, gydag 86% o'r elusennau yn yr arolwg yn cadarnhau eu bod yn gwneud hyn, gan sicrhau bod y sefydliad yn cynrychioli'r gymuned y mae'r elusen wedi'i sefydlu i'w helpu.

Cymhariaeth drawiadol arall yw bod ein hymchwil cynharach wedi dangos mai dim ond 23% o elusennau ar draws y Gofrestr oedd yn cynnal gwiriadau ar gymhwyster ymddiriedolwyr ac i elusennau adfywio, y ffigur yw 73%. Mae'n bosib bod y gwahaniaeth amlwg hwn yn adlewyrchu mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i sicrhau bod ymddiriedolwyr yn gymwys³⁷ i weithredu yn y rhinwedd honno ers cynnal ein hymchwil cynharach.

Roedd ein hymchwil y tro hwn hefyd wedi darganfod bod nifer o'r elusennau yn yr arolwg yn cynnig hyfforddiant i ymddiriedolwyr newydd. Er enghraifft, roedd 27% o elusennau yn darparu hyfforddiant ariannol gan gynnwys cyllidebu, cyfrifysu a chynllunio. Mae 23% yn cynnig hyfforddiant mewn cynllunio strategol a busnes.

3.3.4 Cynnwys defnyddwyr³⁹

Bydd nifer o elusennau yn cynnwys pobl a all fod yn gymwys i gael budd uniongyrchol o wasanaethau'r elusen mewn ymdrech i wella gwasanaethau. Gall cyfranogiad defnyddwyr gynnwys:

- trafodaethau anffurfiol gyda defnyddwyr ynghylch gwasanaethau'r elusen;
- grwpiau ymgynghorol defnyddwyr a holiaduron rheolaidd ar y gwasanaethau a ddarperir;

ymddiriedolwyr. Mae elusennau adfywio ychydig yn llai tebygol o gael anhawster, fodd bynnag, at ei gilydd mae 45% yn cael anhawster. Mae 28% yn cael anhawster weithiau, ac mae 17% yn dweud eu bod bob amser yn cael anhawster. Mae'n bosib bod hyn yn adlewyrchu'r her o lenwi bwrdd ymddiriedolwyr mwy o faint na'r arfer, neu gael hyd i ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli'r gymuned lle y lleolir yr elusen.

- mewnbwn ffurfiol neu anffurfiol gan ddefnyddwyr trwy is-bwyllgorau neu grwpiau defnyddwyr.

Hefyd, gall gynnwys cynrychiolaeth o ddefnyddwyr ar y bwrdd ymddiriedolwyr sy'n cynnig modd iddynt gael dylanwad uniongyrchol ar wasanaethau'r elusen. Dangosodd ein hymchwil bod gan ychydig dros 80%⁴⁰ o'r sampl fuddiolwyr ar y bwrdd ymddiriedolwyr.

³⁶ *Rhwydd hynt trwy ddechrau da: Adroddiad ar Recriwtio a Sefydlu Ymddiriedolwyr* (RS10).

³⁷ Mae Adran 72 Deddf Elusennau 1993 yn pennu gofynion anghymhwysu'r rhai na all wasanaethu fel ymddiriedolwr.

³⁸ *Rhwydd hynt trwy ddechrau da: Adroddiad ar Recriwtio a Sefydlu Ymddiriedolwyr* (RS10).

³⁹ Fe welch restr o rai o'r ffyrdd niferus y gellir cynnwys defnyddwyr yn ein canllaw *Cynnwys Defnyddwyr: Buddiolwyr sy'n dod yn ymddiriedolwyr* (CC24).

⁴⁰ Dangosodd ein harolwg o 125 o elusennau fod 46% yn cael peth gyfranogiad, roedd 11% yn cynnwys y rhan fwyaf o ddefnyddwyr fel ymddiriedolwyr a dywedodd 24% bod pob ymddiriedolwr hefyd yn ddefnyddiwr gwasanaethau'r elusen.

Astudiaeth achos

Mae Partneriaeth Gymunedol Plymouth Cyfyngedig (PCP) yn elusen fawr⁴¹ sy'n darparu cymorth a chefnogaeth i grwpiau cymunedol yn Plymouth. Mae'r gwasanaethau a gynigir yn cynnwys:



- darparu ystod o gyrsiau hyfforddi
- darparu cyngor a chymorth meithrin gallu gan gynnwys cyllido a dechrau arni
- darparu gwybodaeth trwy lythrau newyddion rheolaidd a thrwy ganolfan adnoddau
- darparu ystod o gymorth ymgysylltu â'r gymuned i gynrychiolwyr cymunedol
- gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres cymunedol.



Mae'r elusen yn annog grwpiau cymunedol i ddylanwadu ar lunio polisiâu a chynllunio trwy hybu eu cynrychiolaeth ar gyrff gwneud penderfyniadau strategol allweddol, a chynorthwyo cynrychiolwyr cymunedol er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn effeithiol. Mae'n gwneud hyn trwy hwyluso enwebu ac ethol cynrychiolwyr cymunedol ar bob corff partneriaeth.

Pan fydd swydd wag yn codi anfonir papurau at aelodau'r elusen yn dangos pa waith y mae'r corff partneriaeth yn ymgymryd ag ef ac annog enwebiadau. Mae enwebeion yn cael cyfle i ddarparu gwybodaeth amdanyn nhw eu hunain a pham y byddent yn gynrychiolydd da. Yna mae'r wybodaeth hon yn cael ei chylchredeg i grwpiau aelod ynghyd â'r papurau pleidleisio. Pan ddychwelir y rhain mae'r pleidleisiau'n cael eu cyfrif ac mae pawb yn cael gwybod am y canlyniad.

Wedi hyn, mae PCP yn cynnig gwasanaeth cyfeillio i gynorthwyo cynrychiolwyr cymunedol ac mae hefyd yn cynnig hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant cyfle cyfartal a chyd-gymorth mewn unrhyw gyfarfodydd yn ôl yr angen.

Mae'r elusen hefyd yn cynnal cyfarfodydd a elwir yn 'Amser Cwestiynau' a fyny chir gan grwpiau aelod, cynrychiolwyr ac ati, er mwyn iddynt allu trafod eu gwaith a chodi unrhyw faterion yn ôl yr angen.

Mae caniatáu i fuddiolwyr gael mewnbwn yn y ffordd hon yn dangos bod yr elusen yn sefydliad ymatebol, wedi'i ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, yn cynnwys y gymuned ac yn adlewyrchu anghenion y bobl a wasanaethant.

⁴¹ Rydym wedi disgrifio elusennau fel elusennau 'bach' neu 'fawr' yn ôl eu band incwm (gweler y tabl yn *Annex B* am fwy o wybodaeth). Mae hyn at ddibenion ein gwaith ymchwil yn unig ac nid yw'n adlewyrchu sefyllfa'r elusen dan sylw neu'n llunio barn am ei heffaith yn ei chymuned ei hun.

3.3.5 Gwrthdaro buddiannau

Mae ymddiriedolwyr sydd hefyd yn fuddiolwyr gwasanaethau'r elusen mewn sefyllfa o wrthdaro buddiannau posib oherwydd eu cyfranogiad mewn dwy rôl. Fodd bynnag, dywedodd 83% o elusennau yn ein harolwg nad oedd unrhyw faterion wedi codi

o ganlyniad i fuddiolwyr a benodir fel ymddiriedolwyr. O'r rheiny a nododd faterion, roedd rhai yn cyfeirio at wrthdaro buddiannau ac yn galonogol, os mai dyma oedd yr achos, roedd yr elusen yn llwyddo i reoli hyn.

3.4 Proffil o weithwyr a gwirfoddolwyr

Dangosodd ein hymchwil fod gan y mwyafrif o elusennau adfywio (44%) ar draws y sampl rhwng un i naw gweithiwr. Yn ôl y disgwyl efallai, mae elusennau llai yn llai tebygol o gael mwy nag 20 o

weithwyr⁴² ac nid oedd gan unrhyw elusennau llai fwy na 30 o weithwyr. Roedd gan y mwyafrif o'r elusennau mwy⁴³ rhwng 10 a 19 gweithiwr.

Elusennau adfywio a gweithwyr

	Nifer y gweithwyr	% gydag incwm o £249,999 neu lai	% gydag incwm £250,000+	Cyfanswm %
0		28	4	18
1 - 9		60	21	44
10 - 19		11	29	18
20 - 29		1	6	3
30 - 49		-	6	2
50 - 99		-	17	6
100+		-	17	8
Sylfaen		75	48	125

Yn yr un modd, roedd gan y mwyafrif o'r elusennau yn y sampl (30%) rhwng un a naw gwirfoddolwr. Fodd bynnag, dangosodd ein hymchwil fod elusennau mwy yn llai tebygol o gael gwirfoddolwyr⁴⁴.

⁴² Roedd gan 1% o elusennau gydag incwm blynyddol o lai na £250,000 rhwng 20-29 o weithiwr.

⁴³ 29%.

⁴⁴ Nid oedd unrhyw wirfoddolwyr gan 11% o elusennau gydag incwm blynyddol o lai na £250,000 a 27% o elusennau gydag incwm blynyddol o fwy na £250,000.

Elusennau adfywio a gwirfoddolwyr

	Nifer y gwirfoddolwyr	% gydag incwm o £249,999 neu lai	% gydag incwm £250,000+	Cyfanswm %
0		11	27	18
1 - 9		36	23	30
10 - 19		20	23	22
20 - 29		17	6	13
30 - 49		4	10	6
50 - 99		8	8	8
100+		4	2	3
Sylfaen		75	48	125

3.5 Proffil o eiddo elusen

Dywedodd ychydig dros dri chwarter o'r sampl⁴⁵ fod eiddo ganddynt a ddefnyddiant i weinyddu'r elusen. Mae elusennau gydag incwm o fwy na £250,000 yn fwy tebygol o gael canolfan weinyddol (83%), ond hyd yn oed i elusennau gydag incwm o lai na hyn, mae gan 71% eiddo lle y gweinyddir yr elusen.

Mewn cyferbyniad, dim ond 42% o elusennau sydd â thir neu adeiladau a ddefnyddir yn uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau adfywio (fel gardd gymunedol). Mae elusennau mwy yn fwy tebygol o ddal eiddo o'r fath (58% o'u cymharu â 31% o'r rheiny gydag incwm o lai na £250,000).

Nid oedd gan elusennau a oedd yn gweithredu dramor dir neu adeiladau ar gyfer gweinyddu neu ar gyfer defnydd uniongyrchol ym maes adfywio.

Unig rentu ac yna unig berchnogaeth lwyr oedd y mathau mwyaf poblogaidd o ddal eiddo i'r elusennau hynny sydd ag eiddo a ddefnyddiant at ddibenion gweinyddol. Roedd y sefyllfa i'r gwrthwyneb i'r elusennau hynny sydd â thir neu adeiladau a ddefnyddir yn uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau adfywio.

Prin yw'r elusennau adfywio sydd â lle rhydd (a roddwyd): dim ond 7 o 95 elusen sydd ag eiddo ar gyfer gweinyddu'r elusen a 2 o 53 elusen sydd â thir/adeiladau a ddefnyddir yn uniongyrchol at ddibenion adfywio a ddywedodd eu bod yn meddiannu lle rhydd (a roddwyd).

⁴⁵ 76% a ymatebodd i'n harolwg ffôn.

3.6 Ymgynghori â'r gymuned

Elfen allweddol o adfywio ardal yn llwyddiannus yw cynnwys y gymuned gyfan, a sicrhau ei bod yn 'prynu i mewn' i'r gwelliannau a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud⁴⁶. Felly, gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'n harolwg ffôn am y grwpiau y maent

yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â nhw, y dulliau a ddefnyddiant, yr hyn sy'n gweithion dda a'r hyn y teimlant fyddai'n eu cynorthwyo i gyrraedd y grwpiau hyn yn well.

Elusennau adfywio a grwpiau anodd eu cyrraedd

Grwpiau anodd eu cyrraedd	Nifer yr elusennau	% o'r sampl yn dewis pob opsiwn ⁴⁷
Dim problemau/ddim yn gallu dweud	30	24
Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	31	25
Pobl ifanc	35	28
Pobl oedrannus	7	6
Grwpiau ffydd	6	5
Y di-waith	15	12
Yr anabl/sâl	6	5
Yn ynysig yn gymdeithasol neu'n ddaearyddol	9	7
Arall	15	12

Pa grŵp neu grwpiau yn yr ardal o fudd ydy elusennau adfywio yn ei chael hi'n fwyaf anodd eu cyrraedd?

Y ddau grŵp yr oedd elusennau yn ei chael hi'n broblematig i gydweithio â nhw yn fwyaf cyffredinol oedd pobl ifanc (23%) a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (20%).

Roedd nifer fach o elusennau wedi sôn am adrannau eraill o'u cymuned yr oeddent yn ei chael hi'n anodd cydweithio â nhw, gan gynnwys gofalmwr, y grŵp

canol oed, ffermwyr, rhieni sengl ac unigolion 'difater' neu anfodlon.


Dywedodd 30 o elusennau y buom yn siarad â nhw (bron chwarter o'r sampl⁴⁸) nad oeddent yn cael unrhyw anawsterau yn ymgysylltu ag unrhyw grwpiau yn eu hardal o fudd.

⁴⁶ Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys "Community involvement in neighbourhood regeneration: stairway to heaven or road to nowhere?" (2003), gweler <http://www.bristol.ac.uk/sps/cnrpaperspdf/cnr13pap.pdf>; a "Why involve the community?", The Joseph Rowntree Foundation, 1999.

⁴⁷ Roedd cyfansymiau yn fwy na 100% oherwydd roedd elusennau'n gallu dewis mwy nag un opsiwn.

⁴⁸ 24%.

Elusennau adfywio a grwpiau anodd eu cyrraedd



Pa ddulliau ymgynghori a ddefnyddir gan elusennau adfywio?

Mae bron pob elusen yn y sampl yn ceisio ymgynghori â'u buddiolwyr mewn un ffordd neu ragor⁴⁹. Y dulliau mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd oedd:

- Cynnal grwpiau ffocws neu arolygon a mathau eraill o ymchwil (83%);
- Cyhoeddi newyddion, er enghraifft trwy lythyrau newyddion, i roi gwybod iddynt beth sy'n digwydd (80%);
- Sefydlu fforymau neu weithgorau (76%);
- Gwahodd pob buddiolwr i'r CCB (75%);

- Cynnal cyfarfodydd agored gyda buddiolwyr (75%); a
- Chael llinell gymorth dros y ffôn neu gynnal diwrnodau agored i bobl ofyn cwestiynau (56%).

Roedd y dulliau eraill y soniodd elusennau amdanynt yn cynnwys hysbysebu trwy'r Awdurdod Lleol, hysbysebu rhif ffôn cyffredinol y gall buddiolwyr ei ffonio; cael gwefan; derbyn gohebiaeth trwy'r e-bost; cael swyddfa galw heibio a chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ag aelodau'r gymuned.

⁴⁹ Ni roddodd 2% o elusennau unrhyw ateb neu nid oeddent wedi nodi unrhyw ddulliau ymgynghori.

Dulliau arbennig y mae elusennau wedi dweud wrthym sydd wedi gweithio'n dda iddyn nhw wrth gysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd

O ran ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned gyfan, a grwpiau anodd eu cyrraedd yn arbennig, mae'n ymddangos ei fod yn allweddol i ystyried anghenion y dosbarthiadau o bobl y dymuna'r elusen gysylltu â nhw, gan adnabod y gwasanaethau sydd eu hangen a gwneud y gwasanaethau hynny yn fwy hygyrch.

Roedd yr elusennau hynny sy'n ymgysylltu'n fwyaf llwyddiannus wedi defnyddio cyfuniad o ddulliau mor eang â phosib a hefyd teilwra gohebiaeth i grwpiau targed penodol.

Thema arall sy'n deillio o'n hymchwil, er nad yw bob amser yn bosib i bob elusen, yw bod cael lleoliad ffisegol yn y gymuned - naill ai berchen ar neu

brydlesu eiddo - yn ei gwneud hi'n haws ymgysylltu â grwpiau amrywiol, oherwydd mae'n darparu canolbwynt i'r elusen, ac yn cynnig modd iddi gael presenoldeb ffisegol, gweladwy yn y gymuned.

Roedd 41 o'r 95 elusen (43% o'r ymatebion) a ddywedodd eu bod yn cael problemau yn ymgysylltu ag un grŵp neu ragor yn eu cymuned hefyd wedi dweud nad oeddent yn gwybod neu ni allent feddwl am unrhyw beth arall a fyddai'n helpu cyrraedd y grwpiau hynny. Felly rydym yn cynnwys y rhestrau canlynol o ffyrdd y mae elusennau eraill wedi'u defnyddio i roi awgrymiadau i bobl o'r hyn sydd wedi gweithio i elusennau eraill; annog gweithio mewn partneriaeth a chyfnewid syniadau.

Darparu'n effeithiol

- *"Gwneud gwaith allgymorth";*
- *"Polisi drws agored";*
- *"Cynnal cyfathrebu parhaus trwy gysylltiad â chyfarfodydd rheolaidd";*
- *"Estyn oriau gwaith er mwyn bod ar gael i ystod ehangach o bobl";*
- *"Rhedeg rhaglenni hyfforddiant y mae pobl wirioneddol eu heisiau";*
- *"Ailadrodd digwyddiadau llwyddiannus; peidio â pharhau â digwyddiadau aflwyddiannus";*
- *"Siop dan yr unto";*
- *"Darparu mynediad cyhoeddus i gyfrifiaduron";*
- *"Darparu gwasanaethau penodol a geisir gan grwpiau targed";*
- *"Darparu cyngor ar-lein";*
- *"Defnyddio ymgynghorwyr allanol i gynnig arbenigedd";*
- *"Defnyddio grwpiau llywio a gwasanaethau ymgynghori lleol i ddarparu'r hyn sydd wirioneddol ei angen".*

Cyfathrebu'n effeithiol

- *"Hysbysebu ar lafar, er enghraifft mewn caffis lleol";*
- *"Ymddiriedolwyr a staff ar gael ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda buddiolwyr";*
- *"Dosbarthu taflenni";*
- *"Sgyrsiau un i un gydag arweinwyr y gymuned, hynafgwyr grwpiau ffydd ac ati";*
- *"Rhedeg gorsaf radio leol";*
- *"Defnyddio posteri a phost-daflïadau";*
- *"Sefydlu manau gwybodaeth cyhoeddus";*
- *"Taflenni newyddion";*
- *"Gallu cyfathrebu â phobl yn eu mamiaith";*
- *"Cydweithio â'r papur newydd lleol i sicrhau hysbysebu golygyddol".*

Annog cyfranogiad

- *"Meithrin y gymuned fel sylfaen/canolbwynt";*
- *"Gwyliau blynyddol neu unwaith-yn-unig, diwrnodau hwyl neu nosweithiau hwyl";*
- *"Parti Nadolig";*
- *"Rhaglenni treftadaeth, lle yr anogir pobl i adrodd hanes eu bywyd";*
- *"Cynnal cyngherddau gyda lluniaeth o wahanol wledydd";*
- *"Gweithgareddau a bwyd yn seiliedig ar grefydd";*
- *"Sesiynau blasu";*
- *"Sicrhau bod staff yn cynrychioli'r gymuned";*
- *"Rhedeg digwyddiadau am ddim i bobl ifanc";*
- *"Cynllun credyd amser (arian cymunedol ar gyfer gwirfoddoli - gellir ei ddefnyddio i 'brynu' gwasanaethau elusen arall)";*
- *"(cysylltu â'r anfodlon) - cerdded y strydoedd a cheisio eu darbwyllo i ddod i ddigwyddiadau trwy gysylltiad personol";*
- *"Hybu awyrgylch cyfeillgar";*
- *"Ymgynghori ar feysydd o ddiddordeb arbennig, e.e. gofyn i bobl ifanc am ddylunio gwefan";*
- *"Rhedeg prosiectau amgylcheddol".*

Targedau adrannau penodol o'r gymuned

- *"Dod i adnabod oedolion trwy weithgareddau plant";*
- *"Cynnig cyfle i bobl ifanc greu eu syniadau eu hunain";*
- *"Cael gweithiwr ieuenctid ymrwymedig";*
- *"Mentrau cludiant i ranbarthau sy'n ynysig yn ddaearyddol";*
- *"Annog ysgolion lleol i gyfeirio rhieni sengl at yr elusen";*
- *"Ymweld â chartrefi nyrsio, clybiau cinio ac ati";*
- *"Cael aelodau iau a'u hannog i gyfrannu syniadau";*
- *"Rhedeg grwpiau ieuenctid";*
- *"Ymweld â marchnadoedd ffermwyr";*
- *"Ymweld ag adrannau o'r gymuned o ddrws i ddrws";*
- *"Sefydlu fforymau sy'n benodol i grwpiau e.e. fforwm tenantiaid, fforwm ieuenctid";*
- *"Sefydlu cysylltiadau â'r mosg lleol";*
- *"Ymweld ag ysgolion";*
- *"Mynychu rhwydwaith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig lleol".*

Gweithio mewn partneriaeth

- *"Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau eraill";*
- *"Cydgysylltu ag asiantaethau presennol neu awdurdod lleol";*
- *"Gweithio gyda'r Canolfan Byd Gwaith lleol";*
- *"Gweithio gyda'r coleg/coleg cymunedol lleol".*

Astudiaeth achos

Mae Partneriaeth Gymunedol Haulgh yn elusen fach⁵⁰ a sefydlwyd i hybu adfywio trefol er budd cyhoeddus mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, Dwyrain Bolton yn bennaf (Manceinion Fwyaf) ac yn arbennig y rhai sy'n byw neu'n gweithio yn Haulgh. Ei phrif feysydd gweithgaredd yw:

- lleddfu tlodi;
- hybu diogelwch y cyhoedd ac atal troseddau;
- cynnal, gwella neu ddarparu amwynderau cyhoeddus;
- darparu cyfleusterau iechyd y cyhoedd a hybu iechyd da;
- hybu addysg, hyfforddi ac ailhyfforddi, yn enwedig ymhlith pobl ddi-waith, a chynnig profiad gwaith i bobl ddi-waith;
- diogelu neu warchod yr amgylchedd;
- darparu cyfleusterau adloniadol i'r cyhoedd.

Fel rhan o'i gwaith i fynd i'r afael â gwaharddiad cymdeithasol, yn enwedig ymysg pobl ddi-waith a'r rheiny sy'n byw mewn fflatiau un ystafell, cysylltodd yr elusen â landlordiaid lleol a gofyn iddynt roi gwahoddiadau i denantiaid fflatiau un ystafell, yn eu gwahodd i gael eu cyfweld a cheisio eu barn ar fyw yn yr ardal a sut y gellid gwella pethau.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau gan ddau o denantiaid y fflatiau un ystafell ac roedd hyn yn cynnig modd i'r elusen gasglu gwybodaeth bwysig yn wrthrychol o bobl na fyddent efallai yn gallu cynnig eu barn fel arall ar agweddau amrywiol ar eu hamodau byw. Roedd y cwestiynau'n cynnwys, er enghraifft, beth yr oeddent yn mwynhau am fyw yn eu hardal, a oes mynediad da ganddynt i amwynderau lleol a sut y gallent ymwneud mwy â dylanwadu ar newid.

O ganlyniad roedd yr elusen yn gallu cynnal deialog effeithiol â'r grwp hwn o bobl. Hefyd, roedd yn codi proffil yr elusen a chafodd ei hystyried yn adnodd hygyrch i gefnogi'r grŵp hwn o bobl os oes angen iddynt godi materion am eu llety i'r landlordiaid dan sylw. Fel rhan o'r broses hon roedd y bobl wedi gwneud ffrindiau, yn teimlo'n llai ynysig ac roeddent yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr gyda'i gilydd i helpu newid eu hamgylchiadau unigol.

Mae hon yn enghraifft o'r ffyrdd blaengar y mae elusennau adfywio yn ceisio cynnwys y rhai sy'n byw yn y gymuned a allai gael eu hystyried yn rhai anodd eu cyrraedd, a sut y maent yn cael adborth gwerthfawr ar sut y gellir cyfeirio cyllid i wella bywydau pobl, yn uniongyrchol o'r bobl a all elwa o gronfeydd yr elusen.

⁵⁰ Rydym wedi disgrifio elusennau fel elusennau 'bach' neu 'fawr' yn ôl eu band incwm (gweler y tabl yn *Atodiad B* am fwy o wybodaeth). Mae hyn at ddibenion ein gwaith ymchwil yn unig ac nid yw'n adlewyrchu sefyllfa'r elusen dan sylw neu'n llunio barn am ei heffaith yn ei chymuned ei hun.

Beth fyddai'n helpu i gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd?

Gofynnwyd i elusennau beth fyddai'n eu helpu i gyrraedd grwpiau anodd eu cyrraedd yn eu cymuned. Yn ddiddorol, mae'r rhan fwyaf o'r syniadau y soniwyd amdanynt yn ymddangos fel petaent o fewn cylch gorchwyl yr elusen - yn wahanol, er enghraifft, i 'restr ddymuniadau' ar gyfer llywodraeth leol neu genedlaethol. Yn anochel, efallai, y prif fater a

ddaeth i'r amlwg oedd diffyg adnoddau.

- dywedodd 14 o 95 a ymatebodd y byddai cael mwy o adnoddau (gan gynnwys staff) yn helpu.
- dywedodd 3 o 95 a ymatebodd y byddai cael mwy o wirfoddolwyr yn helpu.

Roedd syniadau eraill yn cynnwys:


- *"Recriwtio cynrychiolydd ymddiriedolwyr grwpiau anodd eu cyrraedd";*
- *"Derbyn na allwch orfodi pobl i gael eu cynnwys, ond ei wneud yn hawdd os ydynt eisiau cael eu cynnwys";*
- *"Gwella cyhoeddusrwydd, ymchwil i'r farchnad";*
- *"Defnydd gwell o'r wefan, e-bost a'n cylchlythyr";*
- *"Cynnig digwyddiadau sy'n cynnig gwobr, fel tocyn";*
- *"Cael hyd i ffynonellau cyllid dibynadwy, tymor hir";*
- *"Meithrin enw da ar lefel leol";*
- *"Sicrhau cymorth gan elusennau anabledd arbenigol";*
- *"Cael gorsaf radio gymunedol leol";*
- *"Gwella gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol a sector cyhoeddus eraill";*
- *"Bod yn greadigol ac arloesol a gweithio gyda phartneriaid arbenigol";*
- *"Cynnal cyfarfodydd stryd";*
- *"Rhedeg digwyddiadau arbennig i ddenu grwpiau penodol";*
- *"Gwella strategaeth gyfathrebu";*
- *"Cynnal mwy o ddiwrnodau agored";*
- *"Cyfieithu gwybodaeth i ieithoedd gwahanol".*

3.7 Mynediad i'r we

Gan fod sawl elusen yn yr arolwg wedi sôn am werth cyfathrebu electronig o ran ymgysylltu â'u cymunedau, gofynnwyd faint o elusennau adfywio oedd yn gweithredu gwefan. Gwelwyd bod bron hanner (45%) yn gwneud hynny⁵¹.

Drwy edrych ar y berthynas rhwng yr elusennau gyda gwefannau a'u hystodau incwm, darganfuwyd, yn ôl y disgwyl efallai, fod cyfran yr elusennau gyda gwefannau yn cynyddu yn unol â maint yr incwm. Yn gyffredinol, mae nifer yr elusennau gyda gwefannau yn cyfateb â'r duedd ar draws y Gofrestr gyfan.

Cyfran yr elusennau adfywio gyda gwefan o'i gymharu ar draws y Gofrestr



⁵¹ Y ffigur hwn yw nifer yr elusennau sy'n dweud wrth y Comisiwn fod gwefan ganddynt.

Elusennau adfywio a gwefannau o'i gymharu â'r Gofrestr gyfan

Band incwm	Elusennau adfywio gyda gwefan	Cyfanswm yr elusennau adfywio	Elusennau ar y Gofrestr gyda gwefan	Elusennau ar y Gofrestr	Cyfran ar y Gofrestr gyda gwefan	Cyfran yr elusennau adfywio gyda gwefan
Dan £10,000 neu ddim yn hysbys	11	58	9170	95091	10%	19%
£10,000 - £250,000	39	110	16150	59659	27%	35%
£250,000 - £1 miliwn	33	51	5112	8375	61%	65%
£1 miliwn a mwy	36	46	4047	5090	80%	78%
Cyfanswm	119	265	34479	168215	21%	45%

4. Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg

4.1 Rheoleiddio

Mae'n ofynnol i'r mwyafrif o elusennau⁵² gofrestru gyda, ac wedyn cael eu rheoleiddio gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Mae rhai elusennau hefyd yn amodol ar reoleiddio ychwanegol neu fonitro eu cyllid, oherwydd eu cyfansoddiad, y math o weithgaredd y maent yn ymgymryd ag ef neu'r cyllid y maent yn ei ddenu.

Prif rôl y Comisiwn Elusennau yw rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr ar ran y rhai sy'n rhoi ac yn cael budd gan elusennau, ac ar ran y gymdeithas yn gyffredinol. Bydd rhai elusennau'n

amodol ar reoleiddio ychwanegol, er enghraifft, mae cwmnïau elusennol hefyd yn amodol ar reoleiddio gan Dŷ'r Cwmnïau.

Gofynnwyd i'r elusennau yn ein sampl a ydynt yn dod dan awdurdodaeth rheolyddion heblaw'r Comisiwn Elusennau. Gwelwyd bod rhaid i bron dwy ran o dair o'r elusennau⁵³ fodloni gofynion sefydliadau cyllido a bod 61% yn cael eu rheoleiddio gan reolyddion generig eraill gan gynnwys Tŷ'r Cwmnïau.

Elusennau adfywio a mathau eraill o reoleiddio

Rheoleiddio	Cyfanswm	% ⁵⁴
Rheolyddion generig eraill, gan gynnwys Tŷ'r Cwmnïau	77	61%
Rheolyddion neu Arolygwyr is-sectorau (er enghraifft, y Gorfforaeth Dai a'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol)	17	14%
Sefydliadau cyllido (statudol, cyhoeddus neu sector preifat)	80	64%
Eraill	5	4%
Dim rheoleiddio arall yn hysbys	15	12%
Ddim yn gwybod	2	2%
Heb ei nodi	1	1%

⁵² Yn gyffredinol, rhaid i bob elusen gofrestru. Mae eraill wedi'u hesgusodi neu eu heithrio rhag cofrestru. Nid ydym yn arolygu'r rhai sydd wedi'u dosbarthu fel elusennau a esgusodir. Am fwy o fanylion, gweler *Atodiad C* neu ein llyfryn *Cofrestru fel Elusen* (CC21).

⁵³ 64%.

⁵⁴ Bydd rhai elusennau yn dod dan awdurdodaeth mwy nag un rheolydd.

4.1.1 Tystiolaeth o gydymffurfiaeth reoleiddio - cyflwyno gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn

Ar adeg ein hymchwil, gwelwyd bod 90% o elusennau adfywio wedi cyflwyno eu Ffurflen Flynyddol o'i gymharu â 82% ar draws y Gofrestr gyfan.

4.1.2 Y materion achos mwyaf cyffredin

Gwelwyd dros gyfnod o ddwy flynedd, fod 181 o elusennau adfywio wedi cysylltu â'r Comisiwn am gyngor ar 50 mater gwahanol.

Elusennau adfywio a materion achos cyffredin

Disgrifiad o'r mater	Nifer o achosion
Newid dogfen lywodraethol (amcanion)	17
Newid dogfen lywodraethol (nid amcanion)	50
Cais cyffredinol am gyngor/gwybodaeth	15

Mae ein cyhoeddiad *Nodweddion Elusen Effeithiol* yn pwysleisio'r angen i ymddiriedolwyr pob elusen adolygu amcanion yr elusen yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn berthnasol, a dyma un o'r prif resymau pam bod elusennau adfywio wedi cysylltu â'r Comisiwn am gyngor.

Mae'r tabl isod yn canolbwyntio ar y tri phrif fater i elusennau adfywio rhwng 2003 a 2005:

4.2 Effaith, cyflawniad a nodau tymor hir

4.2.1 Effaith

Mae'r rhan fwyaf o elusennau yn awyddus i ystyried ffyrdd o fesur eu heffeithiolrwydd, cyfiawnhau eu perfformiad i'r rhai sy'n cael budd ac i randdeiliaid. Mae'n bosib y bydd angen i eraill wneud hyn yn benodol fel rhan o ofynion darparwyr grantiau neu gyrff rheoleiddio. Fel rhan o'n harolwg gofynnwyd i elusennau adfywio pa fesurau sydd ganddynt i asesu pa mor dda y mae'r elusen yn ei wneud ac am y prif gyflawniadau a'r nodau tymor hir.

Darganfuwyd bod:

- 84% o'r elusennau yn yr arolwg yn darparu nifer o allbynnau i ddarparwyr grantiau fel asesiad o'u heffeithiolrwydd.
- 78% o'r sampl yn defnyddio adborth gan randdeiliaid fel dull o fesur effaith.

- 40% yn perfformio rhyw fath o archwiliad cymdeithasol sy'n cynnig modd i archwilydd cymdeithasol ofyn cwestiynau treiddgar i helpu'r elusen fyrfyfrio ar effeithiolrwydd ei gweithrediadau.
- 17% o elusennau yn defnyddio PQASSO⁵⁵.

Roedd rhai elusennau hefyd wedi nodi dulliau eraill, fel gwerthusiadau ar bob prosiect (2%); adolygiadau blynyddol, chwarterol neu fisol (3%). Siaradodd dau ymatebydd am yr angen am offeryn sicrhau ansawdd neu fesur effaith newydd a luniwyd yn benodol i elusennau adfywio ei ddefnyddio.

⁵⁵ Mae PQASSO yn system sicrhau ansawdd ymarferol Gwasanaethau Gwerthuso Elusennau i sefydliadau bach, neu brosiectau o fewn sefydliadau mwy. Fe'i chynlluniwyd yn benodol i sefydliadau sector gwirfoddol ac mae'n darparu dull cam wrth gam i asesu'r hyn y mae sefydliad yn ei wneud yn dda a'r hyn y gellid ei wella. Gweler *Atodiad Ch* am fanylion cyswllt.

4.2.2 Cyflawniadau

Darganfu ein harolwg sawl enghraifft o gyflawniadau diweddar gan elusennau adfywio.

*gyfer hylendid a diet; darparu tanciau storio dŵr*⁵⁸

Roedd rhai o'r cyflawniadau yn canolbwyntio ar welliannau uniongyrchol i bobl:

Llawer o gyflawniadau eraill sy'n ymwneud â gwella isadeiledd y gymuned mewn rhyw ffordd:

- *"...cyfateb pobl â swyddi gwag" a "...cynnig gwersi gyrru cymorthdaledig i'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig... mae methu gyrru yn rhwystr i gyflogaeth"*⁵⁶
- *"Yn ystod gwyliau'r ysgol rydyn ni'n rhedeg prosiect i'r plant lleol mwyaf difreintiedig; mae'n mynd â nhw i fannau gwyrdd"*⁵⁷
- *"Darparu mwy na 150 o anifeiliaid ar gyfer grwpiau pentref; rhaglen ymwybyddiaeth ar*

- *"Cael fferm wynt"*⁵⁹
- *"Y gwaith a wnaed ar Golden Park.....gwneud llwybr natur i bawb..."*
- *".....dyn ni wedi diweddarau'r tai cyngor gyda ffenestri/drysau gwydr dwbl newydd gwres canolog newydd/diogelu rhag tywydd/ceginau ac ystafelloedd ymolchi...rydyn ni wedi creu 30 o gyfleoedd cyflogaeth lleol..."*⁶⁰

4.2.3 Nodau tymor hir

Roedd ein harolwg wedi gofyn i elusennau ddisgrifio nodau tymor hir y sefydliad. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn nodau lefel uchel, uchelgeisiol, er enghraifft:

Roedd eraill wedi darparu enghreifftiau mwy ymarferol o'r gwaith y maent yn gobeithio ei wneud:

- *"dileu tlodi"*⁶¹
- *"creu cymunedau i ymfalchïo ynddynt"*⁶²
- *"creu cymuned fywiog lle mae pobl yn falch i fyw a gweithio"*
- *"creu cymdogaeth falch a ffyniannus"*

- *"Adeiladu'r Ganolfan Gymunedol"*
- *"Adnodd a hyfforddiant iechyd cymunedol"*
- *".....prynu pwmp dŵr newydd i fferm elusennau yn Rwmania"*

⁵⁶ Attercliffe and Darnall Community Enterprises, 1083147.

⁵⁷ Gleadless Valley Community Forum, 1100770.

⁵⁸ Sumba Villages, 1107787.

⁵⁹ Os nad yw enghreifftiau wedi'u priodoli i elusennau unigol yn yr adroddiad hwn, mae hyn oherwydd bod yr elusen wedi gofyn i fod yn anhysbys.

⁶⁰ Berrybridge Housing Limited rhif cofrestredig, 1095347.

⁶¹ Halifax Opportunities Trust, 1086183.

⁶² Shoreline Housing Partnership Limited, 1107876.

4.3 Risg

Gofynnwyd i'n sampl o elusennau adfywio am y prif risgiau a wynebant.⁶³

Yr ateb mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd cyllid, gyda 79% yn adrodd mai hwn oedd un o'u prif risgiau. Roedd y risgiau eraill a nodwyd yn cynnwys:

Prif risgiau elusennau adfywio

Risg	%
Cyllido	79
Gweithwyr	23
Gwirfoddolwyr	18
Rheoleiddio gan y llywodraeth	18
Rheoli/ymddiriedolwyr	17
Llety	12
Rhwydweithiau/partneriaethau	9
Aelodau	6
Cleientiaid/defnyddwyr	6
Technoleg gwybodaeth (TG)	4
Difaterwch yn y gymuned	2

4.4 Cyllid

Prif ystyriaeth i'r rhan fwyaf o elusennau yw sicrhau digon o gyllid i gyflawni amcanion yr elusen a sicrhau ei goroesiad yn y tymor hir. Felly, edrychwyd ar rôl cyllid mewn elusennau adfywio i ddarganfod unrhyw dueddiadau cyffredin.

Gwelwyd uchod bod elusennau adfywio yn ystyried mai cyllid yw eu prif risg, felly gwnaethpwyd gwaith

ymchwil pellach i ddarganfod pa faterion oedd yn gysylltiedig â hyn.

O'n harolwg, gwelwyd bod sicrhau cynaliadwyedd yn bryder arbennig i elusennau adfywio, ac roedd nifer ohonynt wedi'u sefydlu'n wreiddiol i fanteisio ar grantiau tymor byr, er enghraifft, ffynonellau Ewropeaidd:

- *"[rhan o'n strategaeth pum mlynedd yw]...lleihau dibynnu ar incwm a gyllidir gan grantiau"*⁶⁴

- *"[Elfen allweddol o'n strategaeth yn y tymor canolig i dymor hir yw]...helpu cynnal y prosiectau niferus a gyllidwyd yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf -- 2005/06 fydd blwyddyn olaf y brif raglen [a gyllidwyd]..."*⁶⁵

- *"bydd PDT yn chwilio am ffrydiau cyllid newydd pan ddaw'r Gyllideb Adfywio Sengl i ben ym Mawrth 2006"*⁶⁶

⁶³ Gallai atebwyr roi mwy nag un ymateb i'r cwestiynau ar risg felly ni fydd y ganran yn adio i roi 100%.

⁶⁴ Stocksbridge Training and Enterprise Partnership, 1062058, o'r AGG ar gyfer 2005.


⁶⁵ Netherthorpe and Upperthorpe Community Alliance, 1077083, o'r AGG ar gyfer 2005.

⁶⁶ Paddington Development Trust, 1080883, o'r AGG ar gyfer 2005.

Ffynonellau cyllid

Gofynnwyd i'r elusennau yn yr arolwg ddewis o restr ddethol o ffynonellau amrywiol o gyllid a nodi ffynhonnell unrhyw gyllid arall⁶⁷.

Prif ffynonellau incwm/arall



Mae'n amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn bod cyllid ar gyfer elusennau adfywio yn dod o amrywiaeth eang o ffynonellau; nid oedd unrhyw duedd amlwg.

Roedd 79% o elusennau yn ein sampl wedi cynnwys ffynonellau 'eraill' naill ai fel prif ffynhonnell cyllid

Materion cyllid

Dyweddod hanner yr elusennau (56 elusen) yn ein sampl fod materion cyllid wedi effeithio ar weithgareddau eu helusen mewn ffordd niweidiol, gydag elusennau incwm is (is na £250k) yn fwy tebygol o gael profiad negyddol. Roedd y prif faterion cyllid a nodwyd gan elusennau a gafodd brofiadau

neu ffynhonnell cyllid eilaidd. Dywedodd 34% o atebwyr eu bod yn derbyn cyllid gan lywodraeth genedlaethol neu leol. Roedd ffynonellau eraill yn cynnwys buddsoddiad preifat, rhoddion preifat; rhent a thaliadau gwasanaeth; 'rhoddion o'r RAF'; benthyciadau masnachol ac 'eglwysi'.

negyddol yn gyffredinol yn cynnwys ddim yn gallu darparu gwasanaethau arbennig oherwydd nid oedd cyllid ar gael (30 elusen) a ddim yn gallu cynllunio ar gyfer y tymor hir oherwydd bod cyllid yn dymor byr yn unig (17 elusen).

⁶⁷ Gallai atebwyr roi mwy nag un ymateb i'r cwestiynau ar gyllid felly ni fydd y canrannau yn adio i roi 100%.

Astudiaeth achos

Mae'r Coalfields Regeneration Trust yn elusen fawr⁶⁸ a hon oedd yr elusen adfywio gyntaf i gael ei chofrestru yn 1999 gyda'r dibenion adfywio newydd eu cydnabod a sefydlwyd gan y Comisiwn Elusennau.



Mae'r ymddiriedolaeth yn ymwneud yn bennaf ag adfywio cymdeithasol gan geisio meithrin hyder pobl a'u hannog i gyfranogi at ddatblygiad eu cymunedau, gwella ansawdd bywyd pobl mewn cymunedau meysydd glo. Mae hefyd yn ymwneud ag adfywio meysydd glo ac adfer cymunedau ffyniannus a chynaliadwy.



Yn ei phum mlynedd gyntaf roedd yr ymddiriedolaeth wedi dyfarnu grantiau o fwy na £75 miliwn i 1300 o fentrau. Fel arfer, mae grantiau yn rhan o becyn cyllido cymhleth ac wedi cael eu dyfarnu am waith adfywio yn y meysydd canlynol:

- Adnoddau cymunedol ac adeiladu asedau
- Dysgu gydol oes
- Annog pobl ddi-waith i weithio a hyfforddi
- Menter a busnes cymdeithasol

Mae'r ymddiriedolaeth wedi cydweithio ag English Partnerships i sicrhau bod pobl leol wedi'u cysylltu â'r prif ddatblygiadau safle ar gyn safleoedd meysydd glo. Mae'r elusen wedi derbyn adborth cadarnhaol ar y dull hwn o weithio.

Pan gwrddon ni â'r elusen fel rhan o'n rhaglen Ymweliadau Adolygu dywedodd yr ymddiriedolwyr wrthym am yr anawsterau a wynebant o ganlyniad i gyllid sy'n cael ei roi ar gylchred tair blynedd. Darganfu'r ymddiriedolwyr nad yw nifer o'r prosiectau adfywio a gyllidir gan yr elusen yn dymor byr, yn wir gall rhai gymryd rhwng 15 i 20 mlynedd i'w cwblhau a gall hyn greu problemau gydag agweddau amrywiol ar weinyddiaeth yr elusen, er enghraifft, contractau staffio, sy'n gallu cael eu rhoi ar sail 3 blynedd yn unig.

Mae'r elusen arbennig hon yn ceisio wynebu'r her o sicrhau cyllid ychwanegol trwy weithio mewn partneriaeth ag eraill. Hefyd, sefydlodd gwmni masnachu gan sicrhau bod llif cronfeydd a godir yn symud o'r is-gwmni masnachu i'r elusen ac nid i'r ffordd arall.

⁶⁸ Rydym wedi disgrifio elusennau fel elusennau 'bach' neu 'fawr' yn ôl eu band incwm (gweler y tabl yn *Atodiad B* am fwy o wybodaeth). Mae hyn at ddibenion ein gwaith ymchwil yn unig ac nid yw'n adlewyrchu sefyllfa'r elusen dan sylw neu'n llunio barn am ei heffaith yn ei chymuned ei hun.

Hefyd, adroddodd elusennau fod eu helusen wedi cael ei heffeithio mewn amryw o ffyrdd eraill gan gynnwys gorfod cael hyd i ffyrdd o fod yn hunangynhaliol yn ariannol (12 elusen) a bod yn glwm wrth allbynnau sy'n cymryd amser ac yn gostus i'w monitro (9 elusen).

Nodwyd effeithiau negyddol eraill gan 13 elusen, ac roeddent yn cynnwys amryw o faterion, er enghraifft, gorfod cwtogi ar TG a diffyg cyllid craidd sydd wedi golygu na allant ymateb i anghenion datblygu cymunedol.

Roedd ein timau Ymweliadau Adolygu wedi cynnal ymchwil mwy manwl ar faterion cyllid trwy gyfres o ymweliadau byr ag elusennau adfywio yn Awst a Medi 2006. Daeth thema gyson i'r amlwg ar gyfer y math hwn o elusen sef yr her o sicrhau cynaliadwyedd tymor hir. Mae diwedd rhaglenni grantiau sefydledig megis y Gyllideb Adfywio Sengl wedi cadarnhau i'r elusennau'r perygl o ddibynnu ar grantiau ac mae nifer o elusennau yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i anelu at gymysgedd iach o gyllid o nifer o ffynonellau.

Astudiaeth achos

Mae ruralnet|uk yn elusen adfywio fawr⁶⁹, sy'n gweithredu'n genedlaethol i hybu byw a gweithio yng nghefn gwlad trwy gael hyd i ffyrdd newydd i helpu cymunedau gwledig wella a chryfhau eu heconomi leol. Mae'r elusen yn cefnogi asiantaethau sy'n gweithio ar y tir i leddfu anfantais, a galluogi cynhwysiad cymdeithasol a menter gymdeithasol.

Mae'r elusen wedi ymuno â phartneriaid i ddarparu, trwy ei his-gwmni masnachu, fenter o'r enw **net:gain**. Mae'r rhaglen yn ceisio darparu cymorth a chanllawiau cynllunio strategol i'r sector gwirfoddol trwy ddatblygu 'masnachfreintiau cymdeithasol' o fewn canolfannau ar-lein sy'n bodoli yn y DU.

Bydd y masnachfreintiau hyn yn rhedeg rhaglenni aelodaeth am flwyddyn i helpu unrhyw sefydliad elusennol gwirfoddol trwy ymagwedd cynllunio strategol at ei TGCh. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyfres o weithdai, pecynnau cymorth, ffair dechnegol, mynediad i Arbenigwyr Ar-lein, buddiannau aelodaeth, digwyddiadau hyrwyddol, canllaw cyfeirio a mwy. Er bod ei brif ffocws ar TGCh ar hyn o bryd, mae'n bosib y gallai gael ei gymhwyso i agweddau eraill ar gynllunio strategol, fel Adnoddau Dynol neu gynllunio ariannol.

Mae'r fenter hon yn darparu adnoddau gwerthfawr i'r Elusen, trwy'r is-gwmni masnachu sy'n gweithredu net:gain, ond mae hefyd yn darparu adnodd gwerthfawr i elusennau eraill ar draws y sector trwy annog defnyddio ymagweddau mentrus at amrywio ffrydiau incwm.



⁶⁹ Rydym wedi disgrifio elusennau fel elusennau 'bach' neu 'fawr' yn ôl eu band incwm (gweler y tabl yn *Atodiad B* am fwy o wybodaeth). Mae hyn at ddibenion ein gwaith ymchwil yn unig ac nid yw'n adlewyrchu sefyllfa'r elusen dan sylw neu'n llunio barn am ei heffaith yn ei chymuned ei hun.

Er bod y Llywodraeth yn parhau i gyllido datblygiad adfywio a chymunedol sylweddol, mae cyfnodau grantiau yn amlach na pheidio am gyfnodau byr, sy'n ei gwneud hi'n anodd i elusennau, er enghraifft, ddenu a chadw gweithwyr proffesiynol o fewn y sector.

Wedi'i gysylltu â hyn, roedd nifer o elusennau wedi nodi anawsterau o ran denu cyllid, ac ar ôl ei sicrhau, bodloni disgwyliadau eu cyllidwyr. Roedd un elusen yn teimlo mai ffynonellau cyllid ar gyfer adfywio, yn fwy nag unrhyw faes arall o'r sector, yw'r lleiaf clir o ran yr hyn sydd ar gael a phwy sy'n gymwys i wneud cais. Adroddwyd bod rhai ffynonellau cyllid yn anodd eu cael ac yn aml iawn, ni roddir unrhyw adborth ar geisiadau sydd wedi methu, gan ei gwneud hi'n anodd i ddefnyddio'r 'gwersi a ddysgwyd' ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.

Os yw cyllid wedi cael ei roi, roedd rhai elusennau wedi cael problemau i fodloni gwahanol ddisgwyliadau'r cyllidwyr. Er enghraifft, gall fod angen cynlluniau busnes gwahanol ar gyllidwyr gwahanol; a gall cyllidwyr lluosog ar gyfer un

